



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Cyfeirnod 152A2013

Dyddiad 7 Mawrth 2013

Tudalennau 1 o 4

Annwyl gydweithwyr

Ymateb i'r ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer archwilio ac arolygu llywodraeth leol 2013-14

Rwy'n ddiolchgar i'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar fy nghynigion o ran graddfeydd ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol ar gyfer 2013-14.

Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl safbwyntiau a roddwyd, rwyf wedi penderfynu cadarnhau'r graddfeydd ffioedd a gynigiais, er ar hyn o bryd ni allaf ond cadarnhau graddfeydd ffioedd dros dro ar gyfer archwilio cyfrifon comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid.

Gan ymateb i sylwadau a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad, rwyf hefyd wedi rhoi rhywfaint rhagor o wybodaeth yn yr atodiad i'r llythyr hwn, gan gynnwys graddfeydd ffioedd a phennu ffioedd i awdurdodau heddluoedd a pharciau cenedlaethol a fydd, gobeithio, o gymorth i chi.

Bydd y graddfeydd ffioedd rhagnodedig a'r data meincnodi diweddaraf yn cael eu hychwanegu i'n gwefan cyn bo hir.

Fel y nodwyd yn fy nghynigion gwreiddiol, mae'r fframwaith graddfeydd ffioedd yn fy ngalluogi i nodi a herio ffioedd yr ymddengys eu bod yn rhy uchel neu'n rhy isel er mwyn galluogi archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Mae hefyd yn sicrhau bod y ffioedd a godir yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i fantoli'r gyllideb o ran ei gwaith llywodraeth leol.

Mae'r broses o rwystrau a gwrthbwysau ar gyfer ffioedd 2013-14 bellach yn dod at ei therfyn a bydd eich tîm archwilio lleol yn gallu darparu mwy o fanylion am ffioedd yn lleol.

Bydd y potensial i ostwng unrhyw ffioedd yn dibynnu ar amgylchiadau pob corff lleol. Rhaid i'r ffi fod yn ddigon i ariannu'r gwaith y mae ei angen gan ystyried amgylchiadau lleol megis yr amgylchedd llywodraethu, risg, trefniadau ariannol a rheoli perfformiad, maint, cymhlethdod a hanes blaenorol y corff o wella.

Yn olaf, rwy'n credu fy mod i'n agos at ddod i gytundeb gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch fy statws o ran TAW. Cyn gynted ag y caiff y manylion eu cadarnhau byddaf yn ysgrifennu atoch eto i esbonio goblygiadau'r cytundeb gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Yn gywir



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad

Graddfeydd ffioedd a phennu ffioedd ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid

Fel y nodir yn fy llythyr ymgynghori, bydd angen i archwilwyr yn awr gynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu, yn hytrach nag un. Bydd y gwaith ychwanegol yn gofyn am gynnydd yn y ffioedd archwilio, er y bydd faint yn union yn dibynnu ar ofynion cyfrifo'r ddau gorff, ac rwyf yn dal i aros am gadarnhad terfynol ynghylch hyn.

Yn y cyfamser mae fy staff wedi cynnal trafodaethau cynhyrchiol gyda phrif swyddogion cyllid yr heddlu, ac wedi dod i gonsensws bras ynghylch pa ffurf sy'n debygol o fod ar y cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13. Rydym hefyd wedi cytuno i weithio gyda phrif swyddogion cyllid i ddatblygu fformat enghreifftiol ar gyfer y cyfrifon a byddwn yn cynnal sesiwn gweithdy ar y cyd ym mis Mawrth 2013 i roi rhagor o ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chyfrifo ac archwilio. Bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau na fydd y ffioedd archwilio y mae eu hangen i ganiatáu ar gyfer y gwaith ychwanegol ar y cyfrifon ond yn cynyddu i'r swm lleiaf posibl i'r archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau.

Bydd ein cynlluniau rhagarweiniol ar gyfer archwilio a'n cynigion rhagarweiniol ar gyfer ffioedd yn adlewyrchu faint o waith y rhagwelwn y bydd ei angen i archwilio cyfrifon 2012-13. Os oes modd, ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau, i'r archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol gyda chostau llai nag yn ein cynlluniau rhagarweiniol, caiff y gwahaniaeth ei ad-dalu. Fodd bynnag, os oes angen gwaith ychwanegol i alluogi archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol, caiff ffioedd ychwanegol eu codi fydd yn gymesur â'r gwaith ychwanegol a wneir.

Graddfeydd ffioedd a phennu ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

Mae ffioedd unigol ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn annhebygol o newid mewn termau arian parod yn 2013-14 (yn amodol ar newidiadau mewn amgylchiadau lleol). Fel y nodir yn fy llythyr ymgynghori, eleni (am y drydedd flwyddyn yn olynol) nid wyf yn cynnwys codiad am chwyddiant yn y graddfeydd ffioedd. Drwy anwybyddu chwyddiant bydd cyrff llywodraeth leol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn cael budd o tua 2 i 3 y cant mewn termau real ar eu ffioedd (yn ôl data diweddaraf cyfres dadchwyddo CMC Trysorlys Ei Mawrhydi), a gaiff ei amsugno gan archwilwyr.

Fodd bynnag, bydd canolrif y raddfa ffioedd (a'r lleiafswm ac uchafswm cysylltiedig) ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynyddu ar gyfer 2013-14. Mae graddfeydd ffioedd yn fy ngalluogi i nodi a herio ffioedd yr ymddengys eu bod yn rhy uchel neu'n rhy isel er mwyn galluogi archwilyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn mantoli'r gyllideb o ran ei gwaith llywodraeth leol. Mae terfynau'r graddfeydd ffioedd a ragnodir ar gyfer 2013-14 yn adlewyrchu'n fwy manwl gywir gyfanswm mewnbwn Swyddfa Archwilio Cymru, a gellir ei gymharu'n well â'r lefel o grant uniongyrchol gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella sy'n cefnogi ein gwaith mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol er mwyn cwrdd ag anghenion deddfwriaethol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Graddfeydd a thablau ffioedd

Yn sylfaen i'r graddfeydd ffioedd mae dull o gynllunio archwiliad sy'n seiliedig ar sero ac sy'n rhoi ystyriaeth i amrywiad o ran y gofynion am adnoddau. Caiff gofynion o ran adnoddau eu trosi'n raddfeydd ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith. Mae'r graddfeydd canlyniadol yn barhaus ac yn grwm eu ffurf gyda dibyniaeth sy'n lleihau ar faint y cyrff a archwilir.

Ceir graffigau graddfeydd ffioedd ar ein gwefan, ynghyd â rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd a phennu ffioedd.

Mae'r tablau a geir yn Atodiad 1 i'm llythyr ymgynghori ar raddfeydd ffioedd yn rhoi enghreifftiau wedi'u tynnu o'r graddfeydd ar gyfer detholiad o wariannau gros sy'n briodol i'r gwahanol fathau o gyrff llywodraeth leol, i gynorthwyo â chymharu o flwyddyn i flwyddyn.